# Atodiad 1

## Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr (SQE) - Meini Prawf Cymraeg neu Saesneg

### Ein dull

- Bydd angen i ymgeiswyr ddangos eu gallu Cymraeg neu Saesneg os:

  - ydynt wedi'u heithrio o SQE2 yn ei gyfanrwydd neu ran ohono, a
  - bod gennym amheuon difrifol a phendant am eu gallu Cymraeg neu Saesneg.

  Mae hyn yn galluogi ymgeisydd i fodloni'r gofynion yn rheoliad 6.2(b) yn Rheoliadau Awdurdodi Unigolion yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr cyn i dystysgrif ymarfer gael ei chyhoeddi iddo. Mae ein meini prawf yn amlinellu sut gellir dangos gallu Cymraeg neu Saesneg.

- Maen nhw'n caniatáu amrywiaeth o ffyrdd o ddangos gallu, gan gynnal safonau ar yr un pryd.

### Tystiolaeth dderbyniol o allu Cymraeg neu Saesneg

Bydd ymgeiswyr yn gallu dangos eu bod yn medru Cymraeg neu Saesneg yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Gall ymgeiswyr ddangos eu bod wedi llwyddo mewn asesiad iaith Gymraeg neu Saesneg sy'n bodloni'r gofynion craidd canlynol:

  - Mae'r asesiad ar lefel uchel, hy Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) ar gyfer Ieithoedd, Lefel C2.

  - Mae ymgeiswyr wedi cael eu hasesu ar eu gallu darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad.

  - Mae system o ddilysu adroddiadau asesu'n annibynnol (hy dull y gellir yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ei ddefnyddio i wirio canlyniadau ymgeiswyr yn annibynnol yn erbyn cofnodion y darparwyr eu hunain).

  - Mae system dilysu ID ar waith drwy gydol y broses profi i sicrhau diogelwch y profion a'r canlyniadau prawf, gan gynnwys dulliau sefydledig i ddelio â thwyll o ran hunaniaeth ymgeiswyr.

  - Rhaid i'r asesiad fod wedi cael ei basio dim mwy na dwy flynedd cyn gwneud cais i gael eu derbyn.

    (Yn ogystal â'r gofynion craidd uchod, bydd angen i sefydliadau asesu iaith Gymraeg neu Saesneg ddarparu tystiolaeth bod ganddynt bolisi a phroses yn eu lle i ddelio â cheisiadau am addasiadau rhesymol ac am sicrhau safon, dilysrwydd a dibynadwyedd yr asesiadau).

- Mae ymgeiswyr yn dangos bod eu gradd wedi cael ei dysgu yn Gymraeg neu'n Saesneg a'i bod yn cyfateb i radd Lefel 6 yn Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch

y DU (ee baglor), drwy ddarparu tystysgrif a gyhoeddwyd gan UK NARIC sy'n cadarnhau hyn.

- Mae ymgeiswyr yn dangos eu bod yn meddu ar radd Lefel 6 neu uwch yn y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch, sy'n cael ei chydnabod gan UK NARIC mewn gwlad y mae wedi nodi bod yr holl addysg uwch yn cael ei chynnal yn Saesneg.

- Mae ymgeiswyr yn dangos eu bod yn meddu ar radd Lefel 6 neu uwch yn y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch o brifysgol yn y DU a gydnabyddir gan y Llywodraeth.